WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Richard Parry Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 688A2013 |
| **Dyddiad** | 20 Rhagfyr 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **3** |

Annwyl Richard

## Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif gasgliadau sy'n deillio o'm gwaith mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan y Mesur, roi barn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Yn fy llythyr dyddiedig 13 Medi 2013, nid oedd modd i mi roi fy marn ynghylch a yw Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor wedi gohirio cyhoeddi ei Gynllun Gwella er mwyn rhoi digon o amser i aelodau sydd newydd gael eu hethol adolygu Amcanion Gwella y Cyngor a chysoni'r rhain â'r rhaglen wella a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos, yn dwyn y teitl 'Gwneud Gwahaniaeth' a gyfrannodd at y Cynllun Gwella. Yn dilyn hynny cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gwella ym mis Tachwedd 2013.

## Cynllunio ar gyfer Gwella

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur ac mae wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae Cynllun Gwella 2013-14 (y Cynllun) yn amlinellu amcanion gwella'r Cyngor, sy'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae canlyniadau gweithgaredd ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wedi bod yn sail i ddatblygu'r amcanion gwella;
- mae'r meysydd i wella arnynt a amlygwyd gan reoleiddwyr allanol a'r cyn Gomisiynwyr wedi bod yn sail i ddatblygu'r amcanion gwella;
- mae'r Cynllun yn cael ei ddylanwadu gan ddadansoddiad o ganlyniadau a gwendidau yn deillio o Adolygiad o Berfformiad 2011-12 a hunanaseiad cyntaf erioed y Cyngor, a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2013;

- mae'r Cyngor wedi dewis ystod resymol o ddangosyddion er mwyn barnu ei berfformiad.

Disgrifia'r Cynllun flaenoriaethau'r Cyngor yn gryno ac yn glir ac eglura sut y mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu barn y cyhoedd yn ogystal â barn y Cyngor a phartneriaid eraill. Cyhoeddwyd y Cynllun yn dilyn dadansoddiad o'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd a thrafodaethau pellach yng nghyfarfodydd y Cyngor, cyfarfodydd Craffu a Chyfarfodydd Gweithredol ym mis Hydref a dechrau mis Tachwedd 2013.

Mae'r Cyngor wedi diffinio 56 o Amcanion Gwella, ond caiff y rhain eu grwpio gyda'i gilydd o dan 19 o Flaenoriaethau Datblygu. Mae'r rhain, yn eu tro, yn cwmpasu'r tri phrif faes gwasanaeth gan gynnwys Addysg, Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant. Mae'r Cyngor wedi crynhoi yr hyn mae'n ceisio ei gyflawni ym mhob maes gwasanaeth drwy ddefnyddio ymadroddion beiddgar yn seiliedig ar ganlyniadau megis, 'Trawsnewid ein darpariaeth Oedolion i ymrymuso pobl hŷn ym Môn trwy roi iddynt gymaint o annibyniaeth, dewis a rheolaeth â phosib yn y gofal y byddant yn ei gael yn y dyfodol' a 'Gwella ein darpariaeth Addysg fel bod modd i blant yr Ynys, ble bynnag y bônt, waeth beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau, gyflawni eu llawn botensial'. Mae'r nodau hyn yn uchelgeisiol o ran eu cwmpas, yn arbennig gan fod nifer ohonynt yn gofyn am weithio mewn partneriaeth.

Mae'r Cyngor wedi helpu i ddiffinio ei uchelgais ar gyfer y flwyddyn i ddod drwy ddewis nifer o ddangosyddion canlyniadau ar gyfer y rhan fwyaf o'i Amcanion Gwella. Mae pob set o ddangosyddion yn crynhoi'r gwelliannau y mae'r Cyngor yn gobeithio eu cyflawni ar ran ei ddinasyddion yn ystod 2013-14. Wrth bennu ei dargedau ar gyfer y dangosyddion hyn, mae'r Cyngor wedi ystyried yn ofalus ei berfformiad presennol a'i berfformiad yn y gorffennol.

Yr amcanion hyn yw blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2013-14, ond mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod yn ei Gynllun yr angen i wneud cynnydd ar y meysydd gwaith sy'n weddill ac sy'n deillio o'i Gynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2012-2015. Yn ogystal, caiff y meysydd hyn eu hadolygu a chyflwynir adroddiad arnynt drwy fframwaith rheoli perfformiad diwygiedig y Cyngor, a hynny'n rheolaidd.

Mae pob maes gwasanaeth yn y Cynllun yn cynnwys adran ddefnyddiol sy'n dwyn y teitl 'Beth mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym', sy'n nodi pwyntiau dysgu o ymgynghoriadau blaenorol ac yn pwysleisio ymrwymiad y Cyngor i ofyn am adborth ac i ymgysylltu.

## Adrodd ar Welliannau

### Yn fy marn i, ac ar sail y gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ac mae wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- cyhoeddodd y Cyngor ei Adroddiad Perfformiad, hunanasesiad ac adolygiad diwedd blwyddyn (yr Adolygiad) o'i berfformiad yn ystod 2012-13, erbyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Adolygiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Adolygiad yn cynnwys gwerthusiad clir o a yw'r Cyngor yn credu ei fod wedi cyflawni ei Amcanion Gwella ai peidio;
- mae'r Adolygiad yn cynnwys manylion am berfformiad y Cyngor ac yn ei gymharu â dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol;
- mae'r Adolygiad yn cynnwys adrannau ar sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithio.

### Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid oes unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella'n cael eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a amlinellwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol ac yn adrodd ar y cynnydd hwnnw. Byddaf yn gwneud rhagor o waith manwl ar y trefniadau sy'n ategu gwaith rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad y Cyngor dros yr ychydig fisoedd nesaf ac yn adrodd ar hyn, yn ogystal â chrynhoi fy holl waith a gwaith y rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer y Cyngor y byddaf yn anelu at ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Huw Lloyd Jones - Rheolwr
Andy Bruce - Arweinydd Archwilio Perfformiad